# I GYFRANNU...

1) Llenwch y ffurflen

2) Dychwelwch y ffurflen a siec i:

Menter Rabar, Fferm Cae Du, Abersoch, Pwllheli, Gwynedd. LL53 7HT

**NEU**

Postiwch AM DDIM yn y blwch yn Cigydd Terry neu Beresford Adams.

Sieciau yn daladwy i: **Menter Rabar**

3) Cyfrannwch yn uniongyrchol trwy BACS i Fenter Rabar. **Cod didoli:** 543007 **Rhif cyfrif:** 34657975 (ar gyfer taliad BACS **defnyddiwch eich enw LLAWN fel cyfeirnod)**

4) Cyfrannwch ar-lein drwy fynd i www.gofundme.com/ysgol-abersoch neu sganio'r côd QR

**Mae rhoddion yn cau ar 31 Hydref, 2024.**

**Rwyf wedi rhoi trwy**:

BACS: ☐ Siec: ☐ Ar-lein: ☐

Enw: ______________________

Cyfeiriad: ______________________

______________________

Côd Post: ______________________

Ffôn: ______________________

E-bost: ______________________

Llofnodwyd: ______________________

Dyddiad: ______________________

Cadarnhaf fy mod yn hapus i Fenter Rabar gadw fy manylion cyswllt:

Cadarnhaf fy mod yn hapus derbyn gwybodaeth bellach (ni fydd y manylion yn cael eu rhannu gan drydydd parti):

Mae Menter Rabar bellach wedi'i sefydlu fel Cwmni Buddiant Cymunedol ac wedi'i gofrestru â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol rheoliad: 15665705

**DIOLCH!**

# EIN NOD

Rydym eisiau dod â hen adeilad yr ysgol yn ôl yn fyw fel canolbwynt cymunedol ffyniannus i Abersoch .

I wneud hyn, rydym yn bwriadu trosi'r hen ysgol yn:

* gaffi cymunedol yn gweini cynnyrch lleol ffres – trwy gydol y flwyddyn

* canolfan treftadaeth greadigol, barhaol sy'n dathlu hanes y pentref a'r gymuned

* man amlbwrpas ar gyfer gofal plant a defnydd cymunedol

* unedau menter fforddiadwy i gefnogi busnesau bach lleol a masnachwyr unigol

* gardd gymunedol a man gwyrdd a redir gan wirfoddolwyr

* lle sy'n rhoi croeso Cymreig ac yn dathlu iaith leol gyfoethog a diwylliant y pentref.

Mae llawer o fusnesau cymunedol newydd yn cael eu sefydlu ym Mhen Llŷn, gan gynnwys Yr Heliwr yn Nefyn a'r Tŵr ym Mhwllheli.

Nawr rydym am wneud yr un peth yn Abersoch!

menter.rabar@gmail.com

www.gofundme.com/ysgol-abersoch

Rhif cyswllt: 01758 712434

# MENTER RABAR AC YSGOL ABERSOCH

Mae Menter Rabar yn grŵp o wirfoddolwyr lleol sydd am drawsnewid hen adeilad ysgol Abersoch yn ganolbwynt cymunedol newydd.

Gallwch **CHI** gefnogi'r fenter trwy gyfrannu at y costau adnewyddu.

Bydd yr arian a godir yn galluogi Menter Rabar gymryd rheolaeth o adeilad yr ysgol. Yna, gall y gwaith ddechrau.

* Does dim isafswm nac uchafswm cyfraniad

* Mae Cyngor Gwynedd eisoes wedi ymrwymo i drosglwyddo prydles adeilad yr ysgol i'r gymuned mewn egwyddor

* Rydym angen codi arian ar gyfer costau adnewyddu. Targed o £50,000 o roddion – gyda dyddiad cau diwedd mis Hydref

* Bydd gweddill y costau adnewyddu yn dod o grantiau

* Mae Aelodau Menter Rabar yn gweithio'n galed yn cyflwyno ceisiadau grant

* Rydym eisoes wedi codi dros £50,000 mewn cyllid grant i dalu am arolygon adeiladau, cynllun busnes a lluniadau pensaer.

**Bydd eich rhodd yn gwneud gwahaniaeth enfawr i ddyfodol Abersoch!**

